

Cynlluniau i ymestyn Is-orsaf Bodelwyddan

Dogfen Gryno



nationalgrid

Ein bwriadau

Rydym yn ymgynghori am ein bwriadau i ehangu Is-orsaf Bodelwyddan, yng Nghefn Meiriadog, i'r de o Barc Busnes Llanelwy, fel y gallwn sicrhau bod trydan glân, adnewyddadwy, o ffynonellau newydd yn y gogledd yn cael ei gysylltu'n ddiogel â'r rhwydwaith trydan.

Yn ogystal, fel rhan o'n gwaith, sydd ar wahân ond yn gysylltiedig, mae angen i ni newid y ffordd y bydd y llinell uwchben bresennol yn mynd i mewn ac allan o'r is-orsaf ar ôl ei ehangu.

Mae'n rhan o raglen waith fawr ar draws Cymru a Lloegr i ateb y galw cynyddol am ynni a gynhyrchir yn y gwledydd hynny, i helpu busnesau rhanbarthol i dyfu ac i gadw biliau trydan mor fforddiadwy â phosibl.



Swyddogaeth National Grid

Mae gwaith National Grid Electricity Transmission (NGET) wrth galon y system ynni, yn cysylltu miliynau o bobl, mewn ffordd ddiogel, ddibynadwy ac effeithlon, â'r ynni y maent yn ei ddefnyddio o ddydd i ddydd.

Nid ydym ni ein hunain yn cynhyrchu ynni. Ni sy'n berchen ar y rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr ac yn ei gynnal. Mae

hwn yn cludo trydan i'r system ddosbarthu leol er mwyn iddo gyrraedd cartrefi a busnesau.

Rydym yn ymgynghori â phobl a sefydliadau lleol ar ein bwriadau rhwng 10 Hydref a 7 Tachwedd 2023.

Cefnogi uchelgeisiau Cymru ar gyfer ynni

Mae Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig wedi pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yng Nghymru a'r DU dros y degawd nesaf.

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn bodloni swm cyfwerth â 70% o'r galw am drydan yng Nghymru erbyn 2030.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid pwysig eraill, i ystyried senarios ar gyfer uwchraddio ein system trawsyrru trydan yn y dyfodol.

Disgwylir hefyd y bydd y galw am drydan yn dyblu, o leiaf, erbyn 2050 wrth i ni symud i ynni glân i yrru cerbydau trydan, gwresogi ein cartrefi a phweru ein diwydiant. Er mwyn ateb y galw hwn, bydd angen cysylltu ffynonellau ynni newydd yn y Deyrnas Unedig â'n rhwydwaith trydan.

Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu bod angen gwaith uwchraddio unwaith-mewn-cenhedlaeth ar y grid ledled Cymru a Lloegr, i wneud y rhwydwaith trawsyrru ynni yn fwy addas, yn wyrddach ac yn fwy dibynadwy ar gyfer ein dyfodol.



Cysylltu ffynonellau newydd

Gan fod Ofgem yn rheoleiddio ein busnes, rydym dan rwymedigaeth gyfreithiol i gysylltu ynni o ffynonellau cynhyrchu newydd â'n rhwydwaith trawsyrru pan ofynnir i ni wneud hynny.

Mae is-orsafoddd trydan, fel Is-orsaf Bodelwyddan, yn chwarae rhan allweddol yn trawsyrru trydan trwy ein rhwydwaith cenedlaethol.

Gan amlaf, un o'r prif bethau y mae is-orsaf yn ei wneud yw newid foltedd trydan.

Defnyddir offer o'r enw trawsnewidyddion, sydd ar safle'r is-orsaf, i gynyddu neu ostwng y foltedd.

Gwneir hyn fel y gall National Grid drawsyrru'r trydan ledled y wlad ac yna y gall Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu, sef SP Energy Networks yn yr achos hwn, ei gyflenwi ar foltedd is i gartrefi a busnesau lleol.

Yn ogystal, yn Is-orsaf Bodelwyddan yng Nghefn Meiriadog, caiff trydan o wahanol ffynonellau ei gysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru.



Swyddogaethau yn system ynni'r DU

Mae system drydan y DU yn soffistigedig a chymhleth.

Mae datblygwyr, gweithredwr y system, rhwydweithiau, y rheoleiddwr Ofgem a Llywodraeth y DU oll yn chwarae eu rhan yn cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu, cynnal a rheoleiddio cyflenwadau dibynadwy i'n cartrefi a'n busnesau.

Datblygwyr

Mae datblygwyr, fel RWE, bp ac EnBW yn cynnig, yn datblygu, yn caniatáu, yn adeiladu, yn meddu ar ac yn gweithredu ffynonellau cynhyrchu ynni.

Mae newid sydyn yn y dirwedd ynni wedi trawsnewid y math o brosiectau a nifer y prosiectau sy'n dymuno cysylltu â'r rhwydwaith.

Ar hyn o bryd, mae contractau'n bod i gysylltu dros 300GW yng Nghymru a Lloegr, o'i gymharu â'r 65GW sydd wedi'i gysylltu heddiw. Ers mis Ebrill 2023 bu 100GW o gynydd yn y swm.



Rhwydweithiau trawsyrru

Ni, yn National Grid Electricity Transmission (NGET), sy'n berchen ar y rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr ac yn ei gynnal. Mae hwn fel traffyrdd y rhwydwaith trydan, yn symud ynni dros bellteroedd maith. Rydym yn endid cyfreithiol ar wahân i National Grid ESO.




Rhwydweithiau dosbarthu

Mae rhwydweithiau fel yr un sy'n cael ei redeg gan SP Energy Networks yng ngogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr fel priffyrdd y rhwydweithiau, yn cario trydan ar folteddau is i'ch cartref neu'ch busnes.

Electricity Systems Operator (ESO) National Grid

Mae hwn yn symud trydan o gwmpas Prydain gan gydbwysu'r cyflenwad â'r galw bob eiliad o bob dydd.

Wrth i ragor o ffynonellau trydan adnewyddadwy gysylltu â'r system ac i ni symud i gyfeiriad dyfodol digarbon, ei rôl yw sicrhau bod ei system a'r rhwydwaith trawsyrru ehangach yn gallu ymdopi â'r holl newidiadau. Mae tîm y rhwydwaith yncynllunio'r rhwydwaith bron mewn amser real am ugain mlynedd ymlaen llaw.



Yr estyniad arfaethedig i Is-orsaf Bodelwyddan


Mae angen i ni gysylltu prosiectau newydd arfaethedig i gynhyrchu ynni yng ngogledd Cymru â'n rhwydwaith. Yn eu plith mae ffermydd gwynt alltraeth Mona gan bp ac EnBW ac Awel y Môr gan RWE. Mae angen i ni gysylltu cebl tanfor rhyng-gysylltu MaresConnect rhwng Cymru ac Iwerddon hefyd.

Bydd yr is-orsaf yn cynnwys adeilad newydd i ddal offer, a bydd iddo ôl troed o tua 1,263 metr sgwâr. Bydd gosodiad estyniad yr is-orsaf yn debyg i'r is-orsaf bresennol a bydd ar yr un uchder.

Rydym wedi ystyried sawl opsiwn wrth feddwl sut a ble sydd orau i wneud hyn yn effeithlon, yn ddiogel ac yn ddarbodus.

Ar ôl asesu opsiynau posibl, daethpwyd i'r casgliad bod angen estyniad i is-orsaf bresennol Bodelwyddan.

Felly rydym yn ymgynghori ar ein bwriad i ymestyn yr is-orsaf i'r gorllewin, tuag 8,800 metr sgwâr. Mae'r estyniad yn cynnwys manau ar gyfer gantris newydd, ffordd fynediad a phennau selio ceblau y datblygwyr.



Gwaith arall y mae angen i ni ei wneud

Mae angen i ni newid y ffordd y bydd y llinell uwchben sy'n rhedeg rhwng Pentir yng Ngwynedd a Chei Connah yn Sir y Fflint yn mynd i mewn ac allan o'r is-orsaf ar ôl ei ehangu.


Ar ôl ystyried nifer o opsiynau, ein bwriad yw addasu'r trefniant 'T' presennol a rhannu'r un llwybr presennol yn ddau. Daethom i'r casgliad mai dyma'r opsiwn mwyaf effeithlon sy'n gofyn am y newidiadau lleiaf i'r trefniant presennol.

Byddem yn gwneud hyn trwy gael gwared ag un peilon a dau gantri. Byddem yn rhoi pedwar peilon newydd yn eu lle, yn yr un ardal yn fras, i'r de o'r is-orsaf, a byddai'r cylchedau, wedi'u had-drefnu, yn mynd i mewn ac allan o'r safle ar wahân.

Mae proses gydsynio wahanol ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith ar y llinell uwchben bresennol ac felly mae'n ofynnol i ni geisio caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 37 o Ddeddf Trydan 1989.

Cyngor Sir Ddinbych a sefydliadau a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'r broses hon. Cewch chi gymryd rhan yn y broses hefyd a chyflwyno sylwadau ar y cais am ganiatâd.


Mae'r gwaith ar y llinell uwchben yn ymwneud â'r estyniad i'r is-orsaf, felly credwn ei bod yn bwysig esbonio'r agwedd hon yma fel y gall pobl weld a deall y gwaith y mae angen i ni ei wneud yn ei gyfarwydd.



Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 7 Tachwedd 2023, byddwn yn adolygu'r holl ymatebion ysgrifenedig a gawn. Yna byddwn yn eu coladu ac yn ymateb i'r adborth mewn adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio a fydd yn rhan o'n cais cynllunio a gyflwynir i Gyngor Sir Ddinbych yn nes ymlaen eleni.

Yna bydd y Cyngor yn ystyried ein cais cyn gwneud penderfyniad.



Cysylltu â ni

Anfonwch neges ebost i: Bodelwyddan@nationalgrid.com

Ffoniwch ni am ddim ar: **0800 915 3596**

nationalgrid.com/electricity-transmission/network-and-infrastructure/infrastructure-projects/bodelwyddan-substation



nationalgrid